



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Blaenoriaethau Ysgol Gymraeg Aberystwyth;

- **Cymreictod**
- **Parchu ein gilydd**
- **Gwneud ein gorau glas**

Cymreictod - diolch am ddewis Ysgol Gymraeg Aberystwyth ar gyfer addysg eich plentyn, hon oedd yr ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru. Mae'n ysgol Gymraeg benodedig, yr unig un yn Aberystwyth ac rydym yn awyddus i sicrhau fod yna awyrgylch Gymreig gref yn weithredol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Rydym yn dathlu'r ffaith fod gennym ddisgyblion sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol sy'n datblygu i fod yn unigolion dwyieithog hyderus. Weithiau yn dilyn gwyliau hir neu gyfnodau clo mae rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd i droi at yr iaith Gymraeg yn naturiol. Ar ddechrau tymor newydd mi fyddwn yn disgwyl fod pob plentyn yn gwneud ymdrech arbennig yn unol â'u hoed a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol ac yn enwedig yn ystod amser egwyl.

Parchu ein gilydd – rydym eisiau sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu fod angen i bawb ddangos parch a sensitifrwydd tuag at bob aelod o gymuned yr ysgol. Os oes rhywbeth yn digwydd sy'n effeithio ar fwynhad eich plentyn o'r ysgol yna mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith. Mae gan yr ysgol bolisi gwrth fwlio cadarn sy'n pwysleisio'r angen i ddangos parch at ein gilydd.

Gwneud ein gorau glas – un o brif nodau'r ysgol yw sicrhau fod pawb yn gwneud eu gorau glas ac yn cyrraedd eu potensial yn gymdeithasol ac yn addysgol. Mae dechrau tymor newydd yn gyfle ardderchog i dorchi llewys ac i osod disgygliadau uchel ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Trefniadau gollwng plant ger yr ysgol – mi fydd y trefniadau presennol yn parhau – gallwch ollwng eich plant rhwng 8.30 a 9 o'r gloch ger y brif fynedfa. Mi fydd staff cynorthwyol yn cwrdd a'r plant ac yn eu hebrwng i'w dosbarthiadau.

Clwb Brecwast – ar gael bob dydd rhwng 8.15 – 8.30. – angen e bostio'r ysgol i gadw lle.
swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Casglu plant ar ddiwedd dydd;

- 3.15 – Meithrin a Derbyn yn cael eu casglu o iard y Meithrin a'r dosbarthiadau Derbyn
- 3.20 - disgyblion Bl 1 yn cael eu casglu ger y brif fynedfa (a brodyr a chwiorydd iau)
- 3.20 – disgyblion Bl 2 yn cael eu casglu ger y gataiau dwbl gwyrdd ar y cae ger y pafiliwn (a brodyr a chwiorydd iau)
- 3.25 – disgyblion Bl3 yn cael eu casglu ger y brif fynedfa (a brodyr a chwiorydd iau)
- 3.25 – disgyblion Bl 4 yn cael eu casglu ger y gataiau dwbl gwyrdd ar y cae ger y pafiliwn (a brodyr a chwiorydd iau)
- 3.30 – disgyblion Bl 5 yn cael eu casglu ger y brif fynedfa (a brodyr a chwiorydd iau)
- 3.30 - disgyblion Bl6 yn cael eu casglu ger y gataiau dwbl ar y cae ger y pafiliwn (a brodyr a chwiorydd iau)

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Llythyron o'r ysgol – mi fydd athrawon dosbarth yn dosbarthu nifer o ffurflenni ddydd Llun;

1. Ffurflen casglu data – angen ei chwblhau a'i dychwelyd ddydd Mawrth
2. Ffurflen ganiatâd am dripiâu / ymweliadau ysgol - angen arwyddo a dychwelyd i'r ysgol
3. Manylion am weithgareddau cwricwlaidd y tymor newydd
4. Llythyr cyffredinol gan athro / athrawes eich plentyn

Clwb ar ôl ysgol – mae'r ysgol wedi bod mewn trafodaethau gyda Camau Bach o safbwynt trefniadau'r clwb ar ôl ysgol ac mae'r sefyllfa o safbwynt prinder staff yn parhau. Mae'r ysgol wedi cychwyn trafodaethau gyda sefydliadau arall lleol sy'n cynnig cyfleusterau gwarchod plant i weld os oes ganddynt ddiddordeb i redeg y clwb yn yr Ysgol Gymraeg – mi fyddwn yn derbyn diweddariad yn ystod yr wythnos nesaf.

R C Williams, Pennaeth 02/09/2022



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

The values of Ysgol Gymraeg Aberystwyth;

- **Welsh ethos**
- **Respecting each other**
- **Doing our very best**

Welsh ethos - thank you for choosing Ysgol Gymraeg Aberystwyth for your child's education, it was the first Welsh school in Wales. It is a dedicated Welsh medium school, the only one in Aberystwyth and we are keen to ensure that there is a strong Welsh atmosphere in operation in all aspects of school life. We celebrate the fact that we have pupils who come from a variety of cultural and linguistic backgrounds who are developing into confident bilingual individuals. Sometimes following periods of holidays or lockdowns some pupils find it difficult to turn to the Welsh language naturally. At the beginning of a new term we expect every child to make a special effort according to their age and ability to use Welsh in all aspects of school life and especially during break times.

Respecting each other - we want to make sure that every child feels happy and safe at school. This means that everyone needs to show respect and sensitivity to all members of the school community. If something happens that affects your child's enjoyment of school then it is important that you inform the school immediately. The school has a robust anti-bullying policy which emphasizes the need to show respect for each other.

Doing our very best - one of the school's main aims is to ensure that everyone does their very best and reaches their social and educational potential. The start of a new term is an excellent opportunity to set high expectations in all aspects of school life.

Arrangements for morning drop off near the school – the arrangements will remain the same for September – you may bring your children to school between 8.30 and 9 o'clock. Teaching Assistants will meet the children near the main entrance and transfer them to their classes.

Breakfast Club – available daily from 8.15 – 8.30 – please contact the school to book a place.
swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

End of day collection;

- 3.15 - Nursery and Reception collected from the Nursery yard and outside the Reception classes
- 3.20 - Year 1 pupils collected near the main entrance (and younger siblings)
- 3.20 - Year 2 pupils collected near the green double gates on the field near the pavilion (and younger siblings)
- 3.25 - Y3 pupils collected near the main entrance (and younger siblings)
- 3.25 - Yr 4 pupils collected near the green double gates on the field near the pavilion (and younger siblings)
- 3.30 - Year 5 pupils collected near the main entrance (and younger siblings)
- 3.30 - Year 6 pupils collected near the double gates on the field near the pavilion (and younger siblings)

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Letters from the school - class teachers will distribute a number of forms on Monday;

1. Data collection form – to be completed and returned on Tuesday
2. Permission form for trips / school visits - sign and return to school
3. Details about the new term's curricular activities
4. A general letter from your child's teacher

After school club - the school has been in discussions with Camau Bach regarding the arrangements for the after-school club and the situation in terms of staff shortages continues. The school has started discussions with other local organizations that offer childcare facilities to see if they are interested in running the club at Ysgol Gymraeg - we will receive an update during the next week.

R C Williams, Headteacher 02/09/2022